Dulas Ltd/Cyf
Unit/Uned 1 Dyfi Eco Park
Machynlleth
Powys, SY20 8AX
Tel/Ffôn: +44(0)1654 705000
Fax/Ffacs: +44(0)1654 703000
info@dulas.org.uk
www.dulas.org.uk

Dulas Cyf

Datganiad Polisi ar yr Iaith Gymraeg

3 Mehefin 2011

Mae Dulas yn cydnabod mai'r Gymraeg yw un o ieithoedd swyddogol Cymru ac mae wedi ymrwymo i ddelio â phobl yn eu dewis iaith. Gwerthfawrogwn y byddai'n well gan rai sefydliadau ac unigolion yr ydym yn gweithio â hwy ddelio â'n cwmni trwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd Dulas yn sicrhau y gall wneud hynny. Rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, i'r graddau y gallwn wneud hynny'n rhesymol.

Yn ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'r datganiad polisi hwn yn nodi'r uchelgeisiau y mae Dulas yn ymgymryd â hwy i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ond yn parhau ar yr un pryd i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru mewn modd priodol a rhesymol ymarferol. Mae Dulas wedi paratoi Polisi Iaith Gymraeg ac yn ei weithredu fel rhan o'i ymrwymiad i adlewyrchu arfer da yn holl feysydd ei waith gyda'r cyhoedd.

Trwy lunio'r polisi, ei weithredu a'i ddatblygu ymhellach, nod Dulas yw:

- Darparu gwasanaeth gwell i siaradwyr Cymraeg
- Cefnogi cydnabyddiaeth amlwg o natur ddwyieithog Cymru
- Denu staff sy'n siarad Cymraeg wrth recriwtio staff newydd

Mae ein polisi dwyieithog yn amlinellu ein hegwyddorion arwain cyffredinol mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru. Mae'n cydnabod ein cyflawniadau hyd yma, a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth i bolisïau, gwasanaethau a mentrau newydd gael eu cyflwyno.

Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymiadau yn y polisi hwn yn rhesymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu a ddarperir i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac yn gyfyngedig hefyd i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn ni eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

Bydd y Polisi Iaith Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar y wefan yn Gymraeg a Saesneg.

Michael Phillips
Ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr
3 Mehefin 2011

Registered in Wales no. 1629011 VAT no. G.B. 377 7317 15